# DISGRIFIAD O RÔL A CHYFRIFOLDEBAU AELOD O FWRDD GYNGOR GWYNEDD.

1. **Atebolrwydd.**

- I'r Cyngor Llawn.
- I'r Bwrdd
- I'r Pwyllgorau Craffu

2. **Swyddogaethau penodol.**

2.1 Fel arweinyddion unigol.

- Rhoi cyfeiriad gwleidyddol i'r swyddogion ym maes y portffolio.
- Arwain y maes portffolio, oddi fewn ac oddi allan y Cyngor, gan gymryd perchnogaeth drosto, ei hyrwyddo a'i esbonio.
- Datblygu perthynas waith dda gyda chadeiryddion y pwyllgorau craffu perthnasol gan fynychu cyfarfodydd achlysurol hefo nhw.
- Mynychu'r pwyllgorau craffu er mwyn cael eu dal i gyfrif.
- Datblygu perthynas waith dda gydag arweinyddion portffolio eraill, uwch arweinyddion ac Arweinydd Cyngor.
- Datblygu perthynas waith dda gydag uwch swyddogion y Cyngor.
- Cadw trosolwg ar weithgareddau o fewn maes y portffolio; mewn ymgynghoriad â'r pennaeth, gosod targedau addas a monitro cyrhaeddiad yn eu herbyn.
- Bod yn atebol am ddewisiadau a pherfformiad ym maes y portffolio.
- Cydweithio â swyddogion a'r pwyllgor(au) craffu perthnasol i lunio polisïau ym maes y portffolio, ac i sefydlu rhaglen waith addas.
- Cynorthwyo aelodau eraill i ddeall gwaith y portffolio, ymateb i'w pryderon a cheisio datrys unrhyw anawsterau.

2.2 Fel aelod o'r Bwrdd (cyfrifoldebau tîm).

- Gweithredu fel aelod o'r tîm llywodraethu (Bwrdd).
- Ceisio adeiladu consenswს trwy gydweithio gydag arweinyddion eraill i ddarganfod tir cyffredin.
- Cyfrannu at lunio rhaglen waith addas i'r Bwrdd.
- Cymryd penderfyniadau torfol i sicrhau gweithrediad effeithiol ac effeithlon busnes y Cyngor.
- Cyfrannu at gyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol gydag arweinyddion eraill,uwch arweinyddion ac Arweinydd y Cyngor i hybu gwaith y Bwrdd.
- Cydnabod materion sy'n croesi ffiniau portffolios, cyfrannu'n briodol iddynt a chymryd penderfyniadau ar y cyd.
- Cymryd perchnogaeth dros benderfyniadau'r bwrdd.
- Parchu penderfyniadau democrataidd y Bwrdd a'r Cyngor.

2.3 Hunan reoli.

- Hysbysu ei hun am faes portffolio gan sicrhau trefniadau briffio addas iddo/i hun.
- Ymgymryd â hyfforddiant priodol i'r swydd gan gymryd cyfrifoldeb dros asesu ac adnabod ei anghenion hyfforddi ei hun.
- Ymgymryd â gwerthuso, yn unol â strategaeth hyfforddi a datblygu'r Cyngor i Aelodau.
- Gweithio oddi fewn i bolisïau cyffredinol y Cyngor.
- Hyrwyddo a chynnal egwyddorion llywodraethu da.